
# Newyddion Bethlehem

www.gwe-bethlehem.org (trydar): @GweBethlehem Gwaelod-y-garth Haf 2016




**Yn y Cwrdd Eglwys fore Sul, Gorffennaf 17, mewn pleidlais agored, cefnogwyd yn unfrydol barodrwydd Delwyn Sion i ymgymryd â'r swyddogaeth o Arweinydd ym Methlehem, Gwaelod-y-garth. Gweler yr erthygl isod gan ein hysgrifennydd, Rhodri, am y manylion.**

*"…edrych ar y morgrugyn; astudia ei ffyrdd, a dysga sut i fod yn ddoeth. Does ganddo ddim arweinydd, swyddog, na rheolwr, ac eto mae'n mynd ati i gasglu bwyd yn yr haf, a storio'r hyn sydd arno'i angen adeg y cynhaeaf."*

Diarhebion 6, 6-8 [Beibl.net]

Dyna baragraff clo yr erthygl ar dudalen olaf y rhifyn diwethaf o'r Bwletin. Pam ei gynnwys eto 'ta? Does na ddim byd newydd yn y ddihareb, dim byd nad ydym rywbryd neu'i gilydd wedi ei glywed o'r pulpud neu gan riant neu athro ysgol neu gydnabod! Edrychwch eto yn fwy manwl, a hwyrach y cewch fod un gair yn sefyll allan ymhlith y gweddill, a hynny yn adlewyrchiad o'r hyn a ddigwyddodd yn ein heglwys fach ni ar Sul yr 17eg o Orffennaf 2016.
"*Does ganddo ddim arweinydd…*" medd y ddihareb! Tybed? Ymfalchïwn a llawenhawn fod y Cwrdd Eglwys ar y Sul arbennig yma wedi cefnogi yn unfrydol gynnig Delwyn Sion i wisgo mantell "Arweinydd" yn ein plith. Nid ar chwarae bach y mae unrhyw un yn gosod ei hun mewn sefyllfa o'r fath, ac yn sicr ddigon, wedi pendroni yn hir ac yn bwyllog y bu iddo fwrw 'mlaen a'i gais.
Dechrau'r daith oedd y Sul yma, a bydd yn galondid iddo fod ei gyd-aelodau yn llawn ymddiried ynddo wrth iddo fireinio'r syniadau a'r dyheadau a'i ysgogodd i gyfrannu mewn modd mor ymarferol yma ym Methlehem, Gwaelod-y-garth.
Ond cofiwch, bawb, nad cyflenwi rôl "Gweinidog" fydd "Arweinydd". Ac yn sicr ddigon bydd angen cymorth pob un ohonom arno i sicrhau bod yr olwynion yn dal i droi, ac yn symud i'r cyfeiriad iawn. Nid gwaith i "un seren" yn unig fydd hyn!
Cynnal eglwys a fydd yn dal ei thir yn wyneb y bygythion fil sydd o'n cwmpas yn ddyddiol; creu balchder o fod yn perthyn i eglwys a fydd yn barod i sefyll yn gadarn dros anghenion cymdeithasol a chymunedol; creu teulu a fydd â'r gallu i drosglwyddo pethau gorau bywyd i genedlaethau'r dyfodol. Ac fe wyddom oll nad ydi'r un o'r rhain ar gael ar silff unrhyw archfarchnad, ac yn sicr nid BOGOF ["Buy one get one free"] fydd hi chwaith.
Gwn y byddwn yn ofalus ohono ef a'r teulu wrth iddynt ymdopi â phennod newydd arall ar eu taith trwy'r hen fyd oriog sydd ohoni. Gwn hefyd y bydd y Parchedigion R. Alun Evans ac Allan Pickard yn barod eu cyngor a'u cefnogaeth yn ôl y gofyn, a mawr ein diolch iddynt am eu parodrwydd i fod o gymorth bob amser.
Mae Alun bellach nid yn unig yn gyn-weinidog arnom, ond hefyd yn gyn-Lywydd Undeb yr Annibynwyr, a dymunwn yn dda iddo wedi dwy flynedd brysur ryfeddol yn llenwi'r swydd honno gyda dycnwch ac urddas ar hyd a lled Cymru benbaladr a thu hwnt.
Ac yn olaf, ar ddiwedd tymor yr haf, a gwyliau ar y gorwel i lawer, gair o ddiolch am eich cefnogaeth gyson i Fethlehem, am eich parodrwydd i gymryd rhan, ac am eich gwerthfawrogiad o'r hyn a ddarperir ar eich cyfer o wythnos i wythnos, o Sul i Sul.
Mwynhewch y seibiant, yn enwedig chwi blant yr Ysgol Sul, a dewch yn ôl ar gyfer tymor newydd cyffrous - ydi, bryd hynny mae'n argoeli y bydd "dyddiau da" dros ben yn ein disgwyl!

***Rhodri-Gwynn Jones***

*Hefyd yn y rhifyn hwn:*
- *Newyddion*
- *Manylion y Suliau*

# Suliau
# – hyd Nadolig
# 2016

**Gorffennaf**
31 - Ym Methlehem – Dr Ian Hughes
(Efail Isaf yn ymuno â ni)

**Awst**
7 - Efail Isaf - Cymun
14 - Bethlehem
21 - Efail Isaf
28 - Bethlehem

**Medi**
4 - Y Parchg. Hywel Wyn Richards (Cymun)
11 - Oedfa Ardal
18 - Y Parchg. Aled Edwards
25 - Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol Sul

**Hydref**
2 - Y Parchg. Dafydd Andrew Jones (Cymun)
9 - Oedfa yng ngofal Sioned Wyn
16 - Rhys ab Owen
23 - Y Parchg. Dafydd Owen
30 - Y Parchg. Ddr R. Alun Evans

**Tachwedd**
6 - Y Parchg. Ddr. John Tudno Williams (Cymun)
13 - Oedfa Ardal
20 - Y Parchg. Glyn Tudwal Jones
27 - Y Parchg. Gethin Rhys

**Rhagfyr**
4 - Ymarfer Plant yn y bore (Plygain yn y nos)
11 - Ymweld â Chartref Henoed (Cymun yn y nos)
18 - Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul
25 - Gwasanaeth Dydd Nadolig.

**Cyfeiriad yr Ysgrifennydd:**
**Ysgrifennydd: Rhodri-Gwynn Jones,**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39 ***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk

## COLLI MARGARET OWEN, CREIGIAU

*Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth un o'n haelodau, Margaret Gwenllian Owen, Creigiau, ar Orffennaf 20, priod Arwel Ellis Owen a mam Rhodri, Rebecca, Catrin a Sara. Roedd hi hefyd yn fam-gu i wyth, y gwelsom eu bedyddio ym Methlehem ac sy'n parhau i fynychu'r oedfaon a'r Ysgol Sul. Cafodd Margaret ei magu ar fferm yn ardal Treharris, ac roedd ganddi un chwaer a dau frawd.*

*Yn y coleg yn Aberystwyth y cyfarfu Margaret ag Arwel a bu i'r ddau dreulio'r rhan helaethaf o'u bywyd priodasol ym mhentref Creigiau. Dymuniad Margaret oedd na fyddai neb yn gwisgo dillad du na llwyd, ond yn hytrach rhai lliwgar, ar gyfer ei hangladd ym Methlehem, bnawn Iau, Gorffennaf 28.*

*Rydyn ni'n anfon ein cofion at yr holl deulu yn eu colled ac yn gwybod iddyn nhw fynd drwy gyfnod o ofid am waeledd Margaret. Does ond ychydig ers i Arwel fod yn cynnal oedfa ym Methlehem i sôn am ei waith gyda Chyngor Gofal Cymru. Ychydig yn ddiweddarach daeth y newydd iddo gael ei gydnabod gyda'r 'OBE' am ei waith dros wasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru.*

## Llongyfarchiadau i'r canlynol:

- Angharad King ar gymhwyso yn feddyg a phob hwyl yn y swydd newydd gydag Awdurdod Iechyd Chesterfield.
- Gruffydd Cartwright wedi graddio yn y gyfraith a chychwyn ar ei swydd gyntaf.
- Martin Huws, Ffynnon Taf, ar ennill y gadair yng Ngwyl Fawr Aberteifi, ddechrau Gorffennaf ar y testun 'Dihangfa', ei gadair gyntaf.
- Rhys Powys ar ennill cadair Menter Caerdydd am gywydd i Steve Eaves – gweler y llun ar y dde isod
- Geraint Huws, Ffwrnes Blwm gynt, oedd ymhlith staff Ysgol Plasmawr yn concro'r Tri Chopa Cymreig, Pen y fan, Cader Idris a'r Wyddfa, i godi arian i elusen.
- Llion a Lisa Jones, Radur, ar enedigaeth Cai Aneirin ar 15fed o Fehefin 15 yn Ysbyty Athrofaol, Caerdydd.
- David a Kay Clement ar ddod yn Dadcu a Mamgu am y 7ed tro. Ar Orffennaf 24, ganwyd Daniel Owen Davies, i Bethan a Guto yn Llansannan, brawd i Evan.
- Carys a Rhodri Gomer ar enedigaeth mab bach, Taliesin Jac, yn Llandeilo ar Orffennaf 22– y nawfed o wyrion a wyresau Rhian Huws, Ffwrnes Blwm.
- Delyth Evans, Croes Cwrlwys, ar enedigaeth ei hwyr, Gwilym, yng Nghasnewydd.
- A chanmoliaeth arbennig i Alun Evans, Llanilltud Faerdref, (Pentyrch gynt) am achub bywyd un o ddisgyblion ei ysgol. Ymddangosodd y llun isod ar y cyfryngau i gofnodi hanes fel y bu i rawnwin fynd yn sownd yn nghorn gwddf Bailee-Rae Parker (canol), disgybl yn Ysgol Coed y Gof, ac i Alun, (ar y dde) a chydweithiwr, Sean Canham, ei rhwystro rhag mygu drwy gael y ffrwyth allan unwaith eto. *(Diolch i Gyngor Caerdydd a Wales Online am ganiatâd i ddefnyddio'r llun)*.



## Anfonwn ein cofion gan ddymuno adferiad buan i'r canlynol:

- Menna Bassett, Pentyrch
- Delyth Evans, Yr Eglwys Newydd
- June Huws, Gwaelod-y-garth
- Vi Jones, Pentyrch
- A da gweld Avril Pickard yn ei hôl ar ôl ei llawdriniaeth

**Cydymdeimlwn ag:**

- R. Alun Evans, ar ôl iddo golli cefnder yn ardal y Ganllwyd.



**Elusen Leol Bethlehem**
**2016/17**
**fydd**
**YSBYTY FELINDRE**
(dewiswyd drwy bleidlais gudd yn y Cwrdd Eglwys)

**Os ydyn ni'n anfwriadol wedi anghofio nodi rhyw achlysur, newydd neu gyfarchion – yna rhowch wybod i unrhyw un o'r diaconiaid neu anfonwch e-bost at tycnau@aol.com.**



Plant yr Ysgol Sul fu'n rhan o'r gwasanaeth Cymorth Cristnogol, ym mis Mai.



**(uchod)** *Priodas Ieuan Wyn, Yr Eglwys Newydd, ac Angharad yng nghapel Bethlehem Pwll Trap (San Cler) ar y 28ain o Fai.*
*Mae Ieu, sy'n gweithio bellach i gwmni teledu, yn llais a wyneb cyfarwydd i aelodau Bethlehem – fel canwr, cyfansoddwr ac enillydd Tlws Cerddor y Brifwyl. Fel gweddill ei deulu, Heulwen a Wyn Jones, a'i chwiorydd, Sioned a Gwenllian, mae wedi cyfrannu'n fynych i gyfoeth cerddorol Bethlehem. Mae ei briod, Angharad, yn feddyg ac erbyn hyn maen nhw wedi ymgartrefu yn ardal Treganna.*





**(uchod)** *Ar ddydd Sadwrn y 25ain o Fehefin priodwyd Rosanna Stenner ac Ifan Glyn yng nghapel y Tabernacl, Efail Isaf. Magwyd Rosanna yn Creigiau yn ferch i Joy a James Stenner ac mae Ifan yn fab i Joy ac Eifion Glyn, Pentyrch. Cyn brifathro Rosanna, Geraint Rees, oedd yn gweinyddu'r briodas a chynhaliwyd y brecwast mewn marcî ar dir ger cartref ei rhieni ar gyrion Pentre'r Eglwys. Mae Rosanna yn seicolegydd addysg yn y Rhondda ac Ifan yn gweithio fel Cyfarwyddwr Cymru o Ffederasiwn y Meistri Adeiladu. Ymgartrefodd y ddau yn ddiweddar yn Efail Isaf.*

# TAIR PRIODAS HAF

**(chwith)** *Priodas Lowri Angharad Phillips, Cyncoed, â Nick Mathew Allen o Landŵ ger Y Bont-faen, ym Methlehem ar Orffennaf 2il, gyda'r Parch Glyn Tudwal Jones yn gwasanaethu.*
*Cyfarfu Lowri a Nick yng Nghaeredin 8 mlynedd yn ôl tra'n astudio meddygaeth, ac ar ôl symud yn ôl i Gaerdydd y llynedd mae Nick yn feddyg teulu a Lowri'n feddyg yn Ysbyty Llandochau.*
*Yn ystod y gwasanaeth cafwyd datganiad ar y cornet gan Dafydd, brawd Lowri, a'r delynores Kathryn Rees.*

## GWEITHGAREDD Y CWRDD MERCHED




Prif lun: Y teithwyr llon ar diwedd y daith i Abertawe.
Isod – dwy olygfa o fewn yr Amgueddfa Eifftaidd.

# O’r Ais … i’r Aifft … ac yn ôl!

Yn ystod ein cyfarfod cynta’ eleni, buom yn trafod llyfrau dan arweiniad Ann Jones. Bu’r drafodaeth yn un hynod ddifyr gan fod y fath amrywiaeth yn chwaeth y darllenwyr. Y Parchg Ddr R. Alun Evans oedd ein Gŵr Gwadd Mis Chwefror, a chawsom ganddo hanes hynod ddiddorol y bobl hynny ymfudodd o Lanbrynmair draw i America ddechrau`r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg.



Fis Mawrth, trefnwyd ymweliad â`r Hen Lyfrgell yng nghanol Caerdydd er mwyn gweld yr adeilad ar ei newydd wedd, a chawsom glywed gan Ashok Ahuir, Swyddog Hysbysrwydd y Ganolfan, am yr holl weithgarwch sy’n digwydd yno. Cawsom hefyd flasu cinio rhagorol yn y ‘Stafell Fwyta.

Dipyn o Frethyn Cartref gawson ni fis Ebrill, a braf oedd clywed am brofiadau dwy o’n haelodau newydd, Avril Pickard ac Ann Lewis. a diddorol wrth gwrs oedd clywed gan Marged Roberts am weithgarwch sawl un ym maes dysgu Cymraeg fel ail iaith.




Pa well ffordd o gloi’r tymor na chodi pac a mynd ar ein trip blynyddol draw i Abertawe. Bu’r ymweliad â`r Amgueddfa Eifftaidd yn agoriad llygaid i gynifer ohonom, a chafwyd tamaid i`w fwyta yn Nhŷ Bwyta Verdi yn y Mwmbwls. Diolch fel arfer i Dafydd Jones am ein cludo gydol y dydd, ac am ei hir amynedd!

Mae rhaglen ddiddorol eisoes wedi’i threfnu ar gyfer y tymor nesa’ ac mae croeso i aelodau newydd i ymuno â ni.

**Marian Jones**



Áine Edwards yn derbyn ei chopi o Beibl.net ar ôl ei derbyn yn gyflawn aelod yn ddiweddar.

# TE'R TABERNACL

**Y dyddiad nesaf i Fethlehem fod yn gyfrifol am wneud te i'r di-gartref yn Nhabernacl yr Ais fydd**

## 28ain Awst

Dr Ian Hughes sydd bellach yn gofalu am y rhestr. Mae ein diolch yn fawr i Judith a Ken Evans am ofalu am y trefniadau dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r rhestr gyflawn o ddyddiadau yn y cyntedd. Gwirfoddolwch!



(O'r chwith) Ioan, Luc, Y Cadeirydd, Mathew a Marc – mewn rhifyn arbennig o Hawl i Holi awduron yr Efengylau ar Sul y Cyfundeb ym Mhenarth!

**Cofiwch!**

**Mae trefn Suliau Awst fel hyn:**

**7 - Efail Isaf - Cymun (10.45)**
**14 – Bethlehem (10.30)**
**21 - Efail Isaf (10.45)**
**28 – Bethlehem (10.30)**

<u>Codi **£1,650** tuag at elusen Hafal</u>

## Angharad ac Alwyn yn cerdded arfordir Ynys Jersey



**Yng ngeiriau Alwyn Harding Jones, Ffynnon Taf**:
*'Roedd Angharad a finnau'n meddwl bod cefnogi elusen sy'n gwneud gwaith mor arbennig, mewn maes sy'n agos at ein calonnau, yn bwysig - felly dyna benderfynu mynd ar daith gerdded o gwmpas arfordir Ynys Jersey (54 milltir) a chodi arian yr un pryd! Mae haelioni pobol wedi bod yn anhygoel. Pan oedd y daith yn anodd, ac mi oedd ar adegau - 13 milltir un diwrnod ar hyd bryniau arfordir gogleddol Jersey, yn y glaw di-baid, gyda'n cartref ar ein cefnau(!) a dydy rhai ohonon ni ddim mor fain â'n gilydd(!) - ´roedd gwybod bod y rhoddion hael at yr elusen yn ein cadw i fynd. Felly, diolch o galon i chi gyd (yn ffrindiau, teulu, cymdogion, ac wrth gwrs teulu annwyl Bethlehem!) am eich cefnogaeth hael, ac am eich negeseuon.*



Angharad, yng nghanol y blodau, ar fin cyrraedd Greve de Lecq.



Hoe fach ar ôl cyrraedd Castell Grosnez ar yr ail ddiwrnod!

*hafal ydy'r prif fudiad yng Nghymru sydd yn gweithio gydag unigolion sy'n gwella o afiechyd meddwl difrifol a'u teuluoedd. Seiliwyd Hafal ar y gred mai pobl sydd wedi cael profiad uniongyrchol o afiechyd meddwl a ŵyr orau ynghylch sut y gellir darparu gwasanaethau. Mae Hafal yn darparu cefnogaeth ar draws y saith ardal bwrdd iechyd lleol yng Nghymru.*